

Craidd

Sbardun 1 – Aberfan

Pentref yn Ne Cymru yw Aberfan, tua 4 milltir o Ferthyr Tydfil. Tyfodd y pentref, fel cymaint o bentrefi yng nghymoedd De Cymru, o ganlyniad i'r diwydiant glo.

Ond ddydd Gwener, Hydref 21, 1966, digwyddodd trychineb enbyd yn Aberfan. Llithrodd tomen o sbwriel o'r gweithfeydd glo gan ddinistrio tai a chartrefi. Lladdwyd 116 plentyn a 28 oedolyn.

Dros gyfnod o 50 mlynedd, roedd gwastraff o faes glo Merthyr wedi cael ei daflu ar Fynydd Merthyr, ac er bod pobl wedi ceisio rhybuddio'r awdurdodau gan ddweud nad oedd y domen enfawr yn ddiogel, anwybyddwyd y rhybuddion.

Ar ôl tridiau o law trwm, roedd y domen wedi gwario a dechreuodd lithro ar ei thaith drychinebus i lawr i'r pentref. Roedd plant Ysgol Pantglas wedi bod yn y gwasanaeth lle buon nhw'n canu 'All Things Bright and Beautiful'; ond toc ar ôl iddynt gyrraedd eu dosbarthiadau llithrodd y mynydd marwol a'u lladd.

Cafwyd achos llys hir ar ôl y digwyddiad a dedfrydwyd fod bai ar y NCB - (Y Bwrdd Glo - National Coal Board) - am ei esgeulustod. Cynigwyd iawndal o £500 am bob plentyn marw.

Mae'n anodd dychmygu effaith y drychineb ar y pentref. Mae un adroddiad yn nodi nad oedd rhieni'r plant a oroesodd yn gadael i'w plant fynd allan i chwarae wedi'r drychineb, am fod sŵn lleisiau'r plant byw yn codi gormod o hiraeth ar rieni'r plant marw.

Craidd

Sbardun 2 – Ffeil-o-ffaith: Aur

Roedd y Rhufeiniaid yn hoffi defnyddio aur i wneud tlysau a llestri hardd. Y gair Lladin am 'aur' yw 'aurum' a'r un gair yw'r gair a ddefnyddiwn ni heddiw yn Gymraeg, sef 'aur'. AU yw'r llythrennau sy'n dynodi aur ar y tabl cyfnodol.

- Gallwch roi'r holl aur sydd wedi cael ei ddarganfod yn y byd mewn un bocsg sgwâr fyddai'n ffitio o dan y Tŵr Eiffel ym Mharis.
- Mae aur yn fetel meddal iawn. Mae'n hawdd ei blygu â llaw.
- Mae rhai darnau sy'n cael eu defnyddio fel ceiniogau wedi eu gwneud allan o aur pur.
- Wrth orchuddio metel arall ag aur, dim ond 0.05 mm sy'n cael ei ddefnyddio.
- Cafodd aur ei ddefnyddio ar gyfer medalau aur y Gemau Olympaidd am y tro ola yn 1912. Erbyn hyn mae medalau aur ac arian yn cael eu gwneud o 92.5% arian. Rhaid i fedalau aur cael eu gorchuddio gydag o leiaf 6 grams o aur.
- Mae aur i'w gael yn nŵr y môr, ond byddai'n costio mwy na gwerth yr aur i'w dynnu allan.



Craidd

Sbardun 3 – Chile

Gwlad yn Ne Americayw Chile. Mae hi'n wlad gyfoethog o ran mwynau, yn enwedig copr. Daeth y Sbaenwyr i goncro'r wlad yn yr 16 G a chyn hynny'r Inca oedd yn rheoli'r wlad.

Mae'n wlad amrywiol iawn o ran hinsawdd, gydag ardaloedd o anialwch poeth ac ardaloedd eraill sy'n fynyddig ac oer.

Mae ganddi boblogaeth o tua 17,000,000 a'i phrif iaith yw Sbaeneg.

Sebastián Piñera oedd yr arlywydd pan ddigwyddodd damwain gloddio yn y wlad. Roedd e'n bresennol yn ystod cyfnod achub y mwynwyr ac yn sefyll yng Ngwersyll Gobaith gyda'r teuluoedd yn disgwyl i gyfarch pob un o'r 33 wrth iddynt ddod yn rhydd. Gwersyll Gobaith oedd yr enw a roddwyd ar y lle roedd y teuluoedd yn cysgu wrth aros am eu perthnasau. Doedd dim byd i'w wneud yn y lle hwn ond aros a gobeithio.

Gwasgwch ar y swigod i ddarganfod mwy am hanes y '33'.

- Roedd 33 o ddyonion yn gaeth o dan y ddaear am 69 o ddiwrnodau.
- Cafon nhw eu hachub ar y 13 o Hydref 2010.
- Anfonon nhw neges i'w teuluoedd yn dweud eu bod nhw'n iawn.
- Roedd un dyn, Omar Reygadas, yn daid i 14 o blant. Ef oedd yr ail ddyn ar bymtheg i gael ei achub.
- Cafodd un dyn, Samuel Avalos, ei achub gan ei frawd yng nghyfraith.
- Dywedodd Barack Obama, arlywydd yr Unol Daleithiau ar y pryd, fod "undeb a phenderfynoldeb pobl Chile yn ysbrydoliaeth i'r byd i gyd".
- Enw'r gawell a ddefnyddiwyd i godi'r mwynwyr o'r ddaear oedd 'Fénix 2'
- Luis Uruza oedd enw'r mwynwr olaf i gael ei achub ac ef oedd y prif weithiwr yno. Pan gyrraehddodd yr wyneb, cyfarchodd Arlywydd Chile ef, drwy ddweud "que buen jefe" sy'n cyfieithu i "Am fós da!"

Estynnol

Sbardun 1 – Aberfan

Dim ond un llais sydd yn y cwm
A'r llais hwnnw
Yw llais y glaw
Yn curo'n drwm.

Dim ond un llaw sydd yn y cwm
A'r llaw honno
Yw llaw'r mynydd
Yn gwasgu'n drwm.

Dim ond un lliw sydd yn cwm
A'r lliw hwnnw
Yw llwyd
Lliw tristwch, lliw llwm.

Dim ond un cwestiwn sydd yn y cwm
A'r cwestiwn hwnnw
Yw pam?
Ac mae'n gwestiwn rhy drwm.

Estynnol

Sbardun 2 – Bryniau aur fy ngwlad

Mae rhai pobl yn meddwl mai mewn gwledydd pell y mae dod o hyd i fetelau gwerthfawr fel aur yn y ddaear. Ond oeddech chi'n gwybod, dim ond i chi edrych yn fanwl, y gallwch chi ddod o hyd i aur yng Nghymru?

Dolaucothi

Pan oedd y Rhufeiniaid yng Nghymru ganrifoedd yn ôl, daethon nhw o hyd i aur, a defnyddio'r metel gwerthfawr i wneud pethau fel tlysau, llestri a darnau i brynu a gwario. Enw'r lle a ddaethon nhw o hyd i'r aur yw Dolau Cothi. Mae nifer o ddarnau gwerthfawr wedi cael eu darganfod yn yr ardal, ac mae'n siŵr fod yna rai sydd heb gael eu darganfod yn aros yno i rywun ddod o hyd iddyn nhw. Roedden nhw'n defnyddio ffyrdd soffistigedig i ddod o hyd i'r aur. Adeiladodd y Rhufeiniaid nifer o danciau dŵr mawr i'w helpu nhw ddod o hyd i'r aur. Gallwch weld ôl y tanciau hyn wrth ymyl afon Gwenlais hyd heddiw.

Roedden nhw'n casglu'r dŵr yn y tanciau, yna'n gadael yr holl ddŵr i fynd yr un pryd dros y cerrig mân, gan olchi'r baw a'r llaid i ffwrdd. Gallen nhw weld unrhyw ddarnau o aur fyddai wedi cael eu gadael ar ôl.

Gwernymynydd

Ardal arall sy'n gyfoethog o ran aur yng Nghymru yw ardal Dolgellau yng ngogledd Cymru. Dechreuwyd cloddio am aur yno tua'r flwyddyn 1860, ychydig flynyddoedd ar ôl y rhuthr aur yng Nghalifornia. Mae ymwelwyr i'r gwaith aur yno heddiw yn cael cyfle i banio am aur.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen defnyddio rhyw fath o ridyll neu ogor er mwyn gwahanu'r aur oddi wrth y cerrig.

Sut i ddod o hyd i aur...?

Gan fod aur mor brin, gallwch ddychmygu ei bod hi'n anodd iawn dod o hyd i aur. Ond o gael yr offer cywir, a gwybod lle i chwilio, gallwch chi ddod o hyd i'r trysor melyn...

Yn gyntaf, mae angen rhidyll neu ogor arnoch chi.

Yn ail, rhaid i chi ddod o hyd i afon lle mae aur. Mae aur yn y rhan fwyaf o afonydd, ond mae rhai â mwy o aur na'i gilydd!

Yn drydydd, rhaid i chi chwilio am le addas yn yr afon. Pan fo llif y dŵr yn uchel, mae'r aur yn cael ei gario i mewn i'r afon o'r bryniau uwchben. Unwaith yn yr afon, mae'n cael ei gario i lawr nes bod yr afon yn arafu. Rhaid i chi chwilio am y lle mae'r afon yn arafu er mwyn dod o hyd i'r lle perffaith i ddod o hyd i aur.

Lle mae afon yn arafu?

1. Wrth fynd heibio carreg fawr
2. Tro yn yr afon
3. Pan fo'r tir yn fwy gwastad

Yr unig ddau beth arall sydd ei angen arnoch chi yw amser a lwc!

Pob hwyl ar y chwilio...

Estynnol

Sbardun 3 – Dyddiadur Agustin Ramirez

Hydref 12, 2010

Mae hi wedi bod yn ddau fis ers i mi weld dad ddiwethaf, ac yfory, gobeithio, fe gaf i ei weld eto. Ers 33 o ddyddiau mae tîmau wedi bod yn gweithio'n galed, yn drilio twll i'r ddaear mewn ymgais i achub dad a'r 32 dyn arall sydd yno. Maen nhw wedi drilio siafft hir sy'n 66cm mewn diametr ac mae hwnnw'n ymestyn 700m dan y ddaear at y dynion. Y bwriad yw gollwng cawell arbennig i lawr i siafft. Mae'r gawell ddigon mawr i ddal un dyn, felly bydd dad a gweddill y gweithwyr yn cael eu codi o'r ddaear fesul un. Dw i'n edrych ymlaen i'w weld ond dw i hefyd yn poeni sut fydd o'n edrych. Er eu bod nhw wedi bod yn derbyn bwyd, diod a meddyginiaeth mewn podiau bychain dw i'n siwr y bydd bod dan y ddaear am chwe deg naw o ddiwrnodau wedi dweud arnyn nhw.

Rydyn ni wedi bod yn gwersylla yng Ngwersyll Gobatih ers wythnos - daeth mam yma ei hun i ddechrau oherwydd bod rhaid i mi a fy mrawd fynd i'r ysgol. Roedden ni'n aros gyda nain bryd hynny. Er bod cwmwl uwch ein pennau yma, mae pawb yn ymdrechu i gadw hwyliau da ar ei gilydd. Rhaid i mi gael noson dda o gwsg heno, mae yfory yn ddiwrnod mawr a bydd angen pob egni arnaf i.

Hydref 13, 2010

Mae'r gwaith wedi dechrau ac mae sawl dyn wedi'i achub eisoes. Dydw i ddim yn siŵr sut i ddisgrifio'r teimlad sydd yn fy mol. Maen rhyw fath o gymysgedd o gyffro ac ofn sy'n chwarae mig yn fy stumog i. Mae mam ar bigau'r drain - dw i ddim yn meddwl ei bod hi wedi cysgu llawer neithiwr. Mae tri ar ddeg o ddynion wedi dod allan erbyn hyn. Pob tro y bydd dyn yn dod i'r wyneb yn ddiogel mae'r dorf yn dathlu drwy weiddi'n siriol. Allwch chi ddim edrych i unrhyw gyfeiriad heb weld camera teledu neu ohebwy'r yn adrodd ein hanes ni - mae llygaid y byd ar ein cornel fach ni o'r byd heddiw.

Ar ôl aros hir, dw i'n cael deall mai dad sydd nesaf. Ef fydd y trydydd dyn ar hugain i gael ei achub. Dw i methu coelio mod i am gael ei weld heddiw. Pan gafon ni wybod bod y pwll wedi dymchwel ar eu pennau no ym mis Awst -meddyliais na fuaswn i fyth yn ei weld o eto. Mi fydd o adref gyda ni dros y Nadolyg hefyd; ni fyddai'r un anrheg yn gallu curo hynny.

Hydref 14, 2010

Fe ddaeth dad allan o'r pwll am 2.14 prynhawn ddoe. Er ei fod yn gwisgo par o sbectol haul, doedd dim amheuaeth mai dad oedd o. Roedd ei ddiillad yn faw a llwch drostynt a'i wallt yn llwyd yr olwg oherwydd hynny. Mi oedd wedi colli pwysau ond o ystyried ei fod wedi bod dan y ddaear am chwe deg naw o ddiwrnodau, mi oedd o'n edrych yn iawn. Dw i erioed wedi temilo mor falch o weld rhwyun. Ffrwydrodd y gymysgedd 'na o gyffro ac ofn a oedd wedi byw yn fy stumog am ddiwrnodau yn un llif o ryddhad. 'Roedd dagrau o lawenydd yn llifo lawr gruddiau mam. Teimlwn fel bod gen i rywbeth yn sownd yn fy ngheg - doeddwn i methu rhoi'r gorau i wenu. Roedd dad yn ôl gyda ni, yn ddiogel ac yr un fath ag oedd o cyn y drychineb.



Mae camerau yn ein dilyn ni o gwmpas ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o adrodd hanes y goroeswyr. Cafodd pob un o'r mwynwyr eu hachub yn ddiogel. Mae'n eithaf rhyfedd - dydyn ni ddim yn enwog, ond mae pawb eisiau gwybod ein hanes ni fel teulu. Dywedodd mam y bydd sylw'r wasg yn tawelu cyn bo hir, ond am nawr dw i'n ddigon hapus cael dad adref. Rydyn ni gyd yn edrych ymlaen am y Nadolig a chael rhoi'r profiad yma tu ôl i ni.

Llun: [Gobierno de Chile](#)

Heriol

Sbardun 1 – Aberfan a'r Pibydd Brith

I Hamelin erstmalwm
Os yw'r hen stori'n ffaith,
Fe ddaeth rhyw bibydd rhyfedd
Yn gwisgo mantell fraith.

A'r pibydd creulon hwnnw
A aeth â'r plant i gyd
A'u cloi, yn ôl yr hanes,
O fewn y mynydd mud.

A Hamelin oedd ddistaw
A'r holl gartrefi'n brudd,
A mawr fu'r galar yno
Tros lawer nos a dydd.

Distawodd chwerthin llawen
Y plant wrth chwarae 'nghyd,
Pob tegan bach yn segur,
A sŵn pob troed yn fud.

Trist iawn fu hanes colli
Y plant diniwed, gwan -
Yn Hamelin erstmalwm,
Heddiw yn Aber-fan.

T Llew Jones

Heriol

Sbardun 2 – Rhuthro am aur

Tua chanrif a hanner yn ôl roedd Californiayn lle tawel, a neb llawer wedi clywed amdano. Ond newidiodd hynny i gyd ar Ionawr 24, 1848 pan ddaeth dyn o'r enw James W. Marshall o hyd i aur yno. Dechreuodd y newydd ledaenu ar draws yr Unol Daleithiau ac yna ar draws y byd i gyd. Daeth tua 300,000 o bobl yno i chwilio am aur a cheisio dod yn gyfoethog.

Daeth rhai pobl yn gyfoethog iawn, ond dychwelodd eraill adref heb geiniog i'w henw. Cyn y rhuthr hwn am aur, dim ond pentref bychan oedd San Fransisco, gydag ychydig o bobl yn byw yno. Ond erbyn heddiw, mae San Fransisco yn un o ddinasoedd mwyaf yr Unol Daleithiau.

Dechreuwyd adeiladu ffyrdd, ysgolion, ysbytai a chartrefi ar draws California, ac roedd yn gyfnod cyffrous a phrysur iawn. Panio oedd y system a ddefnyddiwyd i ddechrau, sef defnyddio rhyw fath o badell fechan mewn afon i wahanu'r aur o'r cerrig mân. Fel y daeth hi'n amlwg fod llawer o aur yno, daeth y ffyrdd o gloddio am aur yn fwy soffistigedig, a pheiriannu trymion yn cael eu defnyddio.

Ond fel gyda phob datblygiad o'r math hwn, roedd rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled. Roedd rhai o'r Americanwyr brodorol yr oedd eu teuluoedd wedi bod yn byw yno ers canrifoedd wedi gorfod symud allan. Dygwyd eu tiroedd er mwyn i'r bobl wynion gael gafael ar yr aur.

Heriol

Sbardun 3 – Mwynwyr Chile yn cael eu hachub!

Neithiwr fe ddaeth y mwynwr olaf allan i olau dydd yng ngwaith copr San Jose yn Chile. Roedd yna 33 wedi cael eu caethiwo o dan y ddaear am chwe deg naw o ddiwrnodau. Dechreuodd y cyfan pan ddymchwelodd darn o'r twneli oedd yn arwain tuag at yr wyneb. Am dros bythefnos, doedd dim unrhyw gyswllt â'r dynion, a nifer yn meddwl eu bod wedi cael eu lladd, ac na fydden nhw byth yn cael eu darganfod. Ond yna, gan ddefnyddio dril arbennig, tyllwyd drwodd i'r lle'r oedd y dynion. Ysgrifennodd un o'r mwynwyr neges ar ddarn o bapur, a chlymu'r papur i'r dril. 'Estamos bien en el refugio los 33,' [Rydyn ni'n iawn yn y lloches. Y 33.]



ESTAMOS BIEN EN
EL REFUGIO LOS 33

O'r eiliad honno ymlaen, dechreuodd ffrindiau a theuluoedd y dynion wersylla wrth geg y pwll er mwyn disgwyl iddyn nhw ddod allan. Erbyn y diwedd roedd cannoedd wedi casglu, a hyd yn oed mwy na hynny o ohebwy'r teledu, radio a phapurau newydd o lefydd ar draws y byd.

O'r diwrnod hwnnw, fe ddechreuwyd ar y gwaith o geisio cael y dynion allan. Roedd y twll a dorwyd gan y dril cyntaf yn ddigon mawr i anfon tiwbiau bach i lawr at y dynion. Roedd y rhain yn cynnwys bwyd, diod, meddyginiaeth a hyd yn oed grysau pêl droed eu hoff dimau. Roedd ysbryd y dynion wedi codi wrth iddyn nhw sylweddoli fod yr ymdrech i'w hachub wedi dechrau.

Dechreuwyd ar y gwaith o ddrilio tri thwll, a gweld pa dwll fyddai'n eu cyrraedd gyntaf. I ddechrau, dywedai'r awdurdodau yn Chile byddai'n cymryd hyd at y Nadolig i'w cael allan, ond fel yr âi'r gwaith yn ei flaen, sylweddolwyd y byddai'n bosib cyrraedd y dynion dipyn cynt na'r disgwyl. Enw arweinydd y dynion yn y pwll oedd Luis Urzua. Ef oedd pennaeth y sifft pan ddigwyddodd y ddamwain, ac ef hefyd oedd yr un a ddefnyddiodd ei holl dalentau arwain i wneud yn siŵr fod pawb yn cyd-dynnu ac yn goroesi'r wythnosau hirion o dan ddaear.

Aeth yr awdurdodau ati i adeiladu cawell a fyddai'n cael ei ollwng i lawr y twll er mwyn dod â'r dynion allan. Roedd yn gawell bach iawn, a byddai'r dynion yn gorfod bod ynddo am tua hanner awr yn cael eu tynnu allan trwy 700 metr o graig. Roedd rhai o'r dynion ychydig yn rhy fawr i'r cawell, ac felly yn ystod eu cyfnod i lawr yn y pwll roedden nhw'n gorfod mynd ar ddeiet arbennig i wneud yn siŵr eu bod yn ddigon bach i ddod i fyny.

Fel y daeth yr amser yn nes, tyfodd sylw'r byd yn fwy ac yn fwy nes cyrraedd uchafbwynt un noson ym mis Hydref. Roedd Arlywydd Chile'i hun wedi dod yno i groesawu'r dynion i ben y pwll, a daeth hi'n amser anfon y gawell i lawr. Anfonwyd meddyg i lawr yn y gawell i wneud yn siŵr fod y mwynwyr mewn cyflwr da i ddod i fyny. Fesul un, galwyd ar deuluoedd y mwynwyr i geg y pwll i weld eu gwŷr, eu meibion a'u cariadon yn dod i fyny.

Y person cyntaf i ddod allan oedd Florencio Avalos ac wedi hynny, bob hanner awr fe ddaeth mwy a mwy allan o'r uffern dan y ddaear.

Mae ymchwiliad eisoes wedi dechrau i ddarganfod beth aeth o'i le, ac i sicrhau y bydd gwersi'n cael eu dysgu o'r camgymeriad. Ond dathlu oedd y peth cyntaf oedd ar feddwl y mwynwyr a'u teuluoedd. A diolch fod popeth wedi gorffen a bod pawb yn dal yn fyw.

A beth mae'r dyfodol yn ei gynnig i'r mwynwyr? Mae yna sôn fod yna lyfrau a ffilmiau yn cael eu paratoi ac mae'n sicr y byddan nhw'n derbyn llawer o arian am eu stori. Ond mae pob un ohonyn nhw wedi cytuno y byddan nhw'n rhannu ymhlith ei gilydd unrhyw arian y byddan nhw'n ei wneud o'r digwyddiad hanesyddol yma dan ddaear. Ac un peth arall y maen nhw i gyd wedi'i gytuno yn ei gylch yw na fydd neb ohonyn nhw'n siarad o gwbl am y pythefnos y buon nhw dan ddaear yn meddwl fod popeth ar ben. Does ond diolch fod yr uffern honno wedi troi'n nefoedd yn y diwedd.